OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 3170 (Cy. 315)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder a Chlirffordd Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Rhagfyr 2013* |
| *Yn dod i rym* | *14 Rhagfyr 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y ffordd fynediad"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r ffordd fynediad oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Rhagfyr 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder a Chlirffordd Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbytffordd" ("*carriageway*") yw'r darn hwnnw o'r ffordd fynediad y bwriedir i gerbydau traffig dramwyo arni ond nad yw'n cynnwys cilfan;

ystyr "ffordd fynediad" ("*access road*") yw Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) fel y'i pennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn, ac

ystyr “llain ymyl” (“*verge*”) yw unrhyw ran o’r ffordd fynediad nad yw’n gerbytffordd nac yn gilfan.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn hwnnw o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau hynny o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8, ni chaiff neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar y darn hwnnw o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw lain ymyl sy’n union gyfagos i unrhyw ran o’r gerbytffordd a gynhwysir yn y darnau o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 4 at ddiben gwerthu nwyddau o’r cerbyd hwnnw.

**Esemptiadau**

**8.** Ni fydd dim yn erthygl 6 yn gymwys:

a. i atal cerbyd rhag aros ar unrhyw gerbytffordd am gymaint o amser ag sy’n angenrheidiol i alluogi’r cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â’r canlynol:

i. unrhyw waith adeiladu neu ddymchwel;

ii. symud unrhyw rwystr i draffig;

iii. cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r ffordd fynediad neu osod, codi, cynnal a chadw, newid neu drwsio ar y ffordd fynediad neu wrth ei hymyl unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y’i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003**(3)**.

b. i gerbyd a ddefnyddir at ddibenion yr heddlu, y frigâd dân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

c. i gerbyd a ddefnyddir yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol, a

ch. i gerbyd sy'n stopio:

i. pan fydd yn ofynnol i'r person sy'n ei reoli stopio yn ôl y gyfraith;

ii. pan fydd rhaid i'r person hwnnw stopio er mwyn osgoi damwain, neu

iii. pan fydd y person hwnnw yn cael ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau y tu allan i'w reolaeth.

**Cymhwyso**

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 12 Rhagfyr 2013

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S.2003 p.21

## YR ATODLENNI

### Darnau o Ffordd Fynediad y Gwaith Dur (Queen's Way), Llan-wern, Casnewydd

### ATODLEN 1

**Terfyn Cyflymder 30 MYA**

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r dwyrain o berimedr Cylchfan Longditch hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

### ATODLEN 2

**Terfyn Cyflymder 40 MYA**

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau hyd at bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 173 o fetrau i'r dwyrain o ganol ffordd fynediad ymyl Air Products hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

### ATODLEN 3

**Terfyn Cyflymder 50 MYA**

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau hyd at bwynt 10 metr i'r gorllewin o ganol Cyffordd North Row.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row hyd at bwynt 173 o fetrau i'r dwyrain o ganol ffordd fynediad ymyl Air Products.

### ATODLEN 4

**Clirffordd**

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r dwyrain o berimedr Cylchfan Longditch hyd at bwynt 10 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row, cyfanswm pellter o 5 cilometr.